# Y Gyfres Camau Cynaliadwy

***Helpu i wneud Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn realiti cadarnhaol***

Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd
Health and Sustainability Hub
GIG Cymru NHS Wales
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales
World Health Organization Collaborating Centre
On Investment for Health and Well-being



## Ni yw'r Newid – Caffael nad yw'n costio'r ddaear

**Mae gan bob un ohonom yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ran i'w chwarae er mwyn gwireddu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a sicrhau mai 'ni yw'r newid' ar gyfer y Gymru a garem ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Mae ein gweithredoedd heddiw eisoes yn effeithio ar yfory; gyda'n gilydd, gadewch i ni wneud yn siŵr bod yr effeithiau hynny'n rhai cadarnhaol!**

Ni yw'r Newid
Be the Change

Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

# Cyflwyniad

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £7 biliwn bob blwyddyn ar gaffael[1]. Yng Nghymru, caffael yw un o'r meysydd corfforaethol allweddol y nodwyd bod angen ei newid yn y canllawiau craidd statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ein hannog i feddwl am sut a lle i wario'r arian hwn er budd y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol[2].

> "Mae caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ddull pwerus o sicrhau newid parhaus i gyflawni canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol er lles Cymru"[3].

Yn ei ystyr mwyaf sylfaenol, gall caffael cynaliadwy olygu ystyried peidio â phrynu pethau o gwbl, prynu nwyddau sy'n effeithlon o ran ynni ac adnoddau, nwyddau moesegol megis coffi Masnach Deg, neu gynnyrch a gwasanaethau lleol, sy'n cefnogi busnesau lleol.

Ar ei fwyaf cynhwysfawr, mae'n golygu ystyried mewn ffordd systematig sut y gall caffael gefnogi'r ymdrech o gyflawni blaenoriaethau sefydliadol ac amcanion llesiant, gan wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru yn y pen draw.

Mae caffael cynaliadwy yn ein galluogi i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a bod yn fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang.  Gall hefyd ein helpu i gefnogi busnesau lleol, datblygu economi sylfaenol a chynyddu gwerth cymdeithasol.

[1] Llywodraeth Cymru (2021) **Nodyn Polisi Caffael Cymru WPPN 07/21**: Caffael sy'n gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig
[2] Llywodraeth Cymru (2015) **Rhannu Pwrpas, Rhannu Dyfodol**, SPSF 1: canllawiau craidd
[3] Llywodraeth Cymru (2021) **Datganiad Polisi Caffael Cymru**

**Cyflwyniad**
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

Mae Datganiad Polisi Caffael newydd Cymru, a gyhoeddwyd yn 2021, yn cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n amlinellu'r 10 egwyddor y bydd y sector cyhoeddus yn eu dilyn ar gyfer caffael llesiant i Gymru yn seiliedig ar y saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru. Yn y bôn, mae'r egwyddorion sydd â'r cysylltiad mwyaf uniongyrchol â'r canllaw 'Ni yw'r Newid' hwn yn ymwneud â:


- Helpu pobl a sefydliadau i gaffael gyda'i gilydd, pan fo'n bosibl gwneud hynny, er mwyn i ni gael y gwerth cymdeithasol ac economaidd mwyaf posibl o'r gwariant cyhoeddus hwnnw.
- Caffael cynnyrch a gwasanaethau sy'n ystyried y tymor hir ac sy'n dangos sut y mae caffael yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant sefydliad.
- Cefnogi lleoedd (Economi Sylfaenol) a lleihau gwastraff (Economi Gylchol) drwy eich gweithgarwch caffael.
- Gweithredu i atal newid yn yr hinsawdd drwy roi blaenoriaeth i leihau carbon ac atal allyriadau.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ganfod datrysiadau newydd a chynaliadwy drwy'r hyn yr ydym yn ei gaffael.

Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

Roedd ôl-troed Carbon GIG Cymru yn 2018/19 tuag 1 filiwn o dunelli o $CO_2$e, ac roedd 62% o hynny'n allyriadau o weithgareddau caffael.

Mae'r e-ganllaw hwn yn darparu llu o syniadau ac enghreifftiau i'ch cynorthwyo i gaffael yn gynaliadwy – p'un a ydych ar ddechrau eich taith neu'n chwilio am gamau ychwanegol.  Mae pob un yn bwysig i'n helpu i wella llesiant Cymru heddiw ac yn y dyfodol.

Ôl-troed yn ôl Categori 2018/19



Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

# Cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

Yn ôl ei natur, mae'r e-ganllaw hwn yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.




*Saith Nod Llesiant Cymru*





*17 Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig*

Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

# Camau cynaliadwy

Cyn i ni brynu unrhyw beth, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod ei angen arnom. Os oes ei angen arnom, mae dilyn yr Hierarchaeth Caffael Cynaliadwy, o'r brig i'r bôn, yn ffordd o'n helpu i ystyried llesiant wrth wneud ein penderfyniadau caffael. Mae'r pwyntiau bwled canlynol yn darparu enghreifftiau o dan bob un o'r rhain.

## Hierarchaeth Caffael Cynaliadwy




Ffynhonnell: Wrap Cymru (2021)

Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

## Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)

- Gofynnwch a oes angen i chi brynu'r eitem i ddechrau.
- Rhannwch yr hyn sydd gennych eisoes.
- Ystyriwch a yw'n bosibl rhannu neu ailddefnyddio eitemau o adran neu sefydliad arall.
- Adleolwch rywbeth o rywle lle na wneir defnydd digonol ohono, gallai hyn fod yn ddarn o offer mewn rhan arall o'ch sefydliad.
- Os bydd eitem wedi torri, gwnewch ymholiadau i ganfod a ellir ei hatgyweirio yn effeithiol a darbodus.
- Ystyriwch a ellir ailddefnyddio neu ailweithgynhyrchu eitemau, e.e. dodrefn, offer, TG.
- Ceisiwch leihau'r defnydd o eitemau untro, e.e. cwpanau yfed.



Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

## Ailddefnyddio ac Ailystyried ffynonellau

- Prydleswch neu llogwch gynhyrchion yn hytrach na'u prynu, e.e. llungopïwr.
- Os ydych yn prynu eitem newydd, dylech ond gwneud hynny pan fydd gwarant hir neu gontract gwasanaeth hir (i gwmpasu costau cynnal a chadw ac atgyweirio) neu drefniant dychwelyd ar ddiwedd oes y cynnyrch.
- Byddwch yn ymwybodol o sefydliadau atgyweirio ac ailddefnyddio nid er elw lleol, a datblygwch berthynas â nhw.
- Prynwch gynhyrchion ail-law, wedi'u hadnewyddu neu eu hailweithgynhyrchu, e.e. deunyddiau lloriau, dodrefn, cyfarpar.



Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs



## Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy

- Ystyriwch ddisgwyliad oes y cynnyrch. Dewiswch gynnyrch sy'n wydn a dibynadwy.

- Ystyriwch gostau cylch oes cyfan cynnyrch. Mae hyn yn golygu ystyried cyfanswm cost ac effaith amgylcheddol cynnyrch/gwasanaeth yn ystod ei oes.

    - Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, prynu/llogi, cynnal a chadw, gweithrediad, hyfforddiant a gwaredu

    - Yn ogystal â chostau amgylcheddol a chymdeithasol ehangach y cynnyrch neu wasanaeth, dylech gynnwys deunyddiau crai, echdynnu adnoddau, y defnydd o ynni, yr effaith ar yr amgylchedd, bioamrywiaeth, cymunedau lleol a byd-eang

- Wrth gaffael eitem (yn newydd neu wedi'i hadnewyddu/ailweithgynhyrchu), nodwch y byddech yn awyddus i'r eitem gynnwys y deunyddiau mwyaf cynaliadwy posibl. Pethau allweddol i'w blaenoriaethu yw cynnwys wedi'i ailgylchu, deunyddiau adnewyddadwy, ffynonellau cyfrifol a moesegol.

- Dylech gaffael cynhyrchion sydd wedi'u dilysu a'u hardystio gan drydydd parti gyda chadwyn gyflenwi nad yw'n achosi datgoedwigo:

    - Ardystiad y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth (FSC) a'r Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC) ar gyfer cynnyrch pren a phapur

    - Y Fenter Cotwm Gwell (BCI) ar gyfer eitemau cotwm

    - Ardystiad Organig ar gyfer bwyd a thecstilau

    - Masnach Deg

Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

## Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy

- Prynwch gyfarpar electronig cynaliadwy a moesegol, di-wrthdaro drwy gynlluniau ardystio annibynnol, er enghraifft electronicswatch.com neu gan ddefnddio'r ddogfen *Greenpeace Guide to Electronics.*
- Prynwch fwyd a diod tymhorol, teg, moesegol a chynaliadwy.
- Ceisiwch gaffael eich ynni gan ddarparwyr ynni adnewyddadwy a chefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy cymunedol, pan fo hynny'n bosibl.
- Defnyddiwch oleuadau LED neu rai effeithlon o ran ynni – maent yn defnyddio llai o ynni ac yn para'n hirach na goleuadau gwynias.
- Defnyddiwch Bapur wedi'i Ailgylchu yn unig a phennwch ddyddiadau ar gyfer bod yn sefydliad dibapur a diwastraff.
- Os bydd angen cerbydau newydd arnoch chi, dylech brynu neu logi cerbydau trydan/hydrogen.



Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

## Adfer

- Cynlluniwch beth fydd yn digwydd i'ch cynhyrchion ar ddiwedd eu hoes – cyn i chi eu prynu.
- Gweithiwch gyda chyflenwyr sy'n cynnig cynlluniau casglu neu ddychwelyd (e.e. dodrefn, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ac olew coginio hyd yn oed).
- Cyfrannwch nwyddau i'w hailddefnyddio (pan na fydd yn bosibl eu hailddefnyddio'n fewnol) ac ailgylchu beth bynnag sydd ar ôl.



Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

# Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy

- Gwnewch yn siŵr bod y staff yn gwybod sut i brynu'n gynaliadwy.
- Recriwtiwch hyrwyddwyr cynaliadwyedd ar gyfer caffael.
- Cyhoeddwch dendrau mewn da bryd er mwyn annog ystod o sefydliadau i ymateb.
- Ceisiwch wella eich gwybodaeth am fusnesau, mentrau cymdeithasol, unig fasnachwyr a busnesau bach lleol a'r nwyddau a gwasanaethau y gallent eu darparu.
- Cefnogwch unig fasnachwyr, busnesau bach, mentrau cymdeithasol, cwmnïau buddiannau cymunedol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau yn llwyddiannus.
- Ystyriwch sut y gallwch gefnogi gwerth cymdeithasol a chyflawni effaith gymdeithasol drwy gaffael – mae hyn yn edrych y tu hwnt i'r gost ariannol ac yn ystyried pa fanteision ehangach y gellir eu cyflawni drwy greu swyddi a chefnogi cymunedau.
- Ceisiwch ganfod beth yw'r blaenoriaethau yn eich ardal leol a chaffael gyda hynny mewn cof.
- Defnyddiwch ffynonellau lleol pryd bynnag y bo'n bosibl er mwyn i chi allu cyfrannu gwerth ychwanegol i'r economi leol a lleihau allyriadau carbon.


Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

- Sicrhewch fod ymrwymiadau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol wedi'u nodi yn yr amodau contract. Gallai hyn gynnwys arferion cyflogaeth teg a moesegol, creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i grwpiau o bobl, ffyrdd o leihau $CO_2$, a blaenoriaethu busnesau cymdeithasol wrth is-gontractio.

- Gwerthuswch ymatebion i dendrau ar sail ansawdd, cost cylch oes cyfan cynnyrch, ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a phwyso a mesur yn unol â'r rhain.

- Rhowch flaenoriaeth i gyflenwyr sydd ag ymrwymiad cyhoeddus i ddefnyddio ffynonellau cynaliadwy a chefnogi ymdrechion i ddiogelu bioamrywiaeth ac ecosystemau.

- Byddwch yn ystyriol o ble mae eich arian cyhoeddus yn cael ei wario yn nhermau daearyddiaeth, sector a'r math o fusnes.



Cyflwyniad

Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig

Camau cynaliadwy

Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)

Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau

Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy

Adfer

Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy

Hanesion am brynu'n gynaliadwy

Eisiau dysgu mwy?

Ymunwch â'r sgwrs

# Hanesion am brynu'n gynaliadwy

## Gweithle ysbrydoledig a chydweithredol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru

"Pan symudodd Iechyd Cyhoeddus Cymru eu swyddfeydd yn 2016, penderfynwyd caffael contract dylunio swyddfa a chyflenwi dodrefn a fyddai'n annog ailddefnyddio cymaint â phosibl o'r offer swyddfa, dodrefn a deunyddiau llawr presennol, yn ogystal â chyflenwi nwyddau wedi'u hailweithgynhyrchu, o ffynonellau eraill. Darparwyd gwybodaeth mewn 'diwrnod agored' i gyflenwyr am fanylebau allweddol dylunio gweithle cydweithredol ac ailddefnyddio cymaint â phosibl o'r dodrefn. Darparwyd mwy na 2,500 o eitemau gan y consortiwm buddugol, a oedd yn cynnwys mentrau cymdeithasol. O blith y rhain, dim ond 6% ohonynt oedd yn newydd, ac roedd y gweddill wedi'u hailweithgynhyrchu neu eu hadnewyddu, gyda chyfran sylweddol wedi'u hailddefnyddio o stoc bresennol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Llwyddodd y dull cylchol i ddargyfeirio 41 o dunelli o wastraff o safleoedd tirlenwi - gan arbed 134 o dunelli o $CO_2$."

Sut y bu i getris argraffwyr arwain at blannu 800 o goed.

"Pan gymerodd Mark Roden gyfrifoldeb dros y storfa yn adran Microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru, daeth o hyd i swm sylweddol getris argraffwyr. Roedd yn amau nad oedd angen y rhain mwyach. Cofnododd leoliad a model pob argraffydd ar draws yr adran i ganfod pa getris nad oedd eu hangen.

I ddechrau, cynigiodd Mark y cetris i'r rhwydwaith iechyd cyhoeddus ehangach, heb lwyddiant. Penderfynodd chwilio am gwmni a fyddai'n eu hailgylchu. Canfu Cartridge Forest, sy'n plannu coed am bob cetrisen y gellir eu hailddefnyddio a anfonir atynt. Anfonodd Mark 40 o'r cetris argraffwyr at y cwmni ac yn gyfnewid am hyn mae 800 o goed wedi'u plannu, gan arbed tua 144 tunnell o $CO_2$."

Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

[Fferm solar yng Nghymru yn rhagori ar y disgwyliadau wrth ddarparu pŵer i Ysbyty Treforys (Saesneg yn unig)]

"Mae Ysbyty Treforys ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi'i gysylltu â Fferm Solar Brynwhillach, gyda'i 10,000 o baneli, drwy gebl dwy filltir o hyd. Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022, mae eisoes wedi arbed £500,000 drwy gynhyrchu mwy na 2.3MW o drydan ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu gwerthu pŵer yn ôl i'r grid ynni.

Yr hyn sydd wedi peri syndod yw'r ffaith bod yr ysbyty yn cael ei bweru'n gyfan gwbl gan y fferm solar am gyfanswm o 367.25 o oriau. Drwy wneud mân newidiadau, y gobaith yw y gellir cyflawni arbedion ac effeithlonrwydd ychwanegol.

Adeiladwyd y fferm solar gwerth £5.7 miliwn o dan gynllun benthyciad a sefydlwyd gan lywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus erbyn 2030. Mae'r bwrdd iechyd yn awyddus i wella iechyd pobl a lleihau llygredd ac mae effaith y newid yn yr hinsawdd yn rhan hanfodol o hynny."



Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

'Theatrau cynaliadwy' Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro (Saesneg yn unig)

> "Yn 2019, BIP Caerdydd a'r Fro oedd y Bwrdd Iechyd cyntaf i gyhoeddi argyfwng hinsawdd ac mae wedi cymryd camau i ddatblygu 'theatrau cynaliadwy'. Mae'r prosiect wedi dod â gwasanaethau iechyd, academyddion ac arbenigwyr y diwydiant ynghyd i gydweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i ddylunio a chreu theatrau sy'n gweithredu mewn dulliau cynaliadwy. Y nod yw lleihau ôl-troed carbon theatrau sydd fel arfer yn cynrychioli 20-30% o ôl-troed carbon ysbyty. Mae hyn yn pwysleisio sut y gellir defnyddio caffael i gefnogi'r ymdrech i gyflawni eu blaenoriaethau strategol yn ogystal â chefnogi eu hamcan llesiant i 'leihau niwed, gwastraff ac amrywiaeth yn gynaliadwy, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni.'"

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Cyflymu Accelerate | Cyflymydd Arloesedd Clinigol Clinical Innovation Accelerator



Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

# Eisiau dysgu mwy?

Dyma ddetholiad o adnoddau a allai eich helpu.

**Caffi Trwsio Cymru**
Cynhelir digwyddiadau'r Caffi Trwsio gan gymunedau lleol lle gall aelodau'r cyhoedd ddod ag eitemau o'u cartrefi i'w trwsio pan fyddant wedi'u difrodi neu wedi torri (er enghraifft, technoleg, dillad, beiciau). Yna bydd gwirfoddolwyr y caffi trwsio yn ceisio atgyweirio eitemau ac annog y cyhoedd i gymryd rhan a dysgu sut y gellir trwsio eu heitem er mwyn iddyn nhw roi cynnig ar waith trwsio tebyg yn y dyfodol.

**Benthyg Cymru – Llyfrgell Pethau Cymru**
Rhwydwaith yw hwn o leoedd lle y gall pobl fenthyca eitemau am brisiau fforddiadwy, eitemau na allant fforddio eu prynu neu y gallai fod ond eu hangen yn achlysurol neu am gyfnod byr. Hefyd, gall pobl gyfrannu pethau y maen nhw'n berchen arnynt ond nad ydynt eu hangen mwyach, gan gyfrannu at y targedau cenedlaethol i leihau gwastraff; a chwrdd i rannu gwybodaeth a sgiliau gyda'i gilydd, gan gynyddu gwydnwch cymunedol.

**Electronics Watch**
Mae Electronics Watch yn helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus i gydweithio gyda chymdeithas sifil i fonitro cadwyni cyflenwi electronig a chefnogi caffael offer yn foesegol.

**Datganiad Gallu Gwneud**
Datganiad ynghylch y ffordd y gallem gyflawni buddsoddiad cyhoeddus yng Nghymru.

**Sustainable Procurement Platform**
Siop un stop ar gyfer adnoddau caffael cyhoeddus cynaliadwy (e.e., meini prawf, canllawiau, astudiaethau achos).

Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs

**Y Ganolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy: Sut i …ddarparu prydau blasus, iach ac ystyriol o'r amgylchedd mewn ysbytai (Saesneg yn unig)**
Canllaw ar gyfer timau caffael ac arlwywyr.

**Masnach Deg**
Mae Masnach Deg yn gweithio gyda chydweithfeydd ffermio, busnesau a llywodraethau i sicrhau bod masnach yn deg. Mae gennym ni, ynghyd â'r ffermwyr a'r gweithwyr Masnach Deg, weledigaeth: byd lle mae masnach yn seiliedig ar degwch er mwyn i gynhyrchwyr sicrhau bywoliaeth gynaliadwy.

**Pecyn Offer Caffael Dim Datgoedwigo**
Crëwyd y pecyn offer hwn gan Maint Cymru i helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau nad yw'r cynnyrch a'r nwyddau a brynir yn arwain at ddatgoedwigo trofannol a dinistrio cynefinoedd dramor.

**Mwy nag Ailgylchu**
Cynllun Llywodraeth Cymru i sicrhau economi gylchol yng Nghymru, lle'r ydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau ac yn osgoi gwastraff.

**Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**
Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi rhai adroddiadau ar gaffael:
**Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: caffael dan y chwyddwydr**
Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn dadansoddi cynnydd pob corff cyhoeddus i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ers 2015. Dyma ddolen i'r bennod ar arweinyddiaeth a gweithrediad y Ddeddf ble mae caffael dan y chwyddwydr.

**Caffael – crynodeb**
Mae hyn yn crynhoi gweledigaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer caffael, gan bwysleisio'r materion allweddol a'r argymhellion.

Cyflwyniad
Cyfrannu at nodau llesiant Cymru/y Cenhedloedd Unedig
Camau cynaliadwy
Lleihau (Adleoli, Rhannu ac Atgyweirio)
Ailddefnyddio ac Ailystyried Ffynonellau
Prynu Cynhyrchion Cynaliadwy
Adfer
Sut i wneud penderfyniadau am sut i brynu nwyddau a gwasanaethau yn gynaliadwy
Hanesion am brynu'n gynaliadwy
Eisiau dysgu mwy?
Ymunwch â'r sgwrs



# Ymunwch â'r sgwrs

Rydym yn awyddus i glywed am y camau gweithredu yr ydych yn eu cymryd i fyw a gweithio'n gynaliadwy. Byddai'n wych pe gallech rannu ac ysbrydoli eraill drwy roi ffotograffau ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #NiywrNewidCymru.
Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau mai 'ni yw'r newid'!




Datblygwyd yr adnodd hwn gan Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

© 2023 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir ailgyhoeddi'r deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ar yr amod y gwneir hynny yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid rhoi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
ISBN 978-1-83766-128-2 Ni yw'r Newid - Caffael nad yw'n costio'r ddaear